

Annwyl Syr / Fadam,

Atodir agenda a dogfennau eraill isod ar gyfer cyfarfod o'r **GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL**.

NODER – NID YW'R CYFARFOD HWN YN AGORED I'R CYHOEDD.

Yr eiddoch yn gywir,

Gary Williams  
**Swyddog Monitro**

---

Dear Sir / Madam,

An agenda and other documents for a meeting of the **CLIMATE CHANGE AND ECOLOGICAL EMERGENCY WORKING GROUP** are attached below.

PLEASE NOTE – THIS MEETING IS NOT OPEN TO THE PUBLIC.

Yours faithfully,

Gary Williams  
**Monitoring Officer**

## **AGENDA**

- 1 RHAGLEN** (Tudalennau 3 - 12)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# RHAGLEN

## CYFARFOD: GWEITHGOR NEWID HINSAWDD A'R ARGYFWNG

### ECOLEGOL

<b>Dyddiad</b>	28 Chwefror 2024
<b>Amser</b>	14.00-16.00
<b>Lleoliad</b>	Microsoft Teams
<b>Cadeirydd</b>	Y Cyng. Barry Mellor
<b>Hwylusydd</b>	Gary Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes ac Uwch Berchennog Cyfrifol Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol) a Liz Wilcox-Jones (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd)
<b>Ymddiheuriadau</b>	

<b>1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau (Cadeirydd)</b>	(5 munud) 14.00-14.05
<b>2. Cofnodion/ camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf a materion yn codi (Cadeirydd)</b>  <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae eitemau a awgrymir ar gyfer camau gweithredu'r strategaeth hinsawdd o'r cardiau sgorio hinsawdd wedi'u cwblhau.</li> </ul>	(10 munud) 14.05-14.15
<b>3. Y wybodaeth ddiweddaraf am Adolygiad y Strategaeth (Liz Wilcox-Jones)</b>  Adolygu ac adnewyddu Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2023/24	(25 munud) 14.15-14.40
<b>5. Ynni ac Inswleiddio'r Cartref (Joseph Muxlowe CSFf, Glyn Forsdick)</b>  Y tîm ynni domestig yn CSFf a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu.  <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweinyddu ECO4 ar ran y Cyngor</li> </ul>	(40 munud) 14.40-15.20

<p>Gwaith tai CSDd ar inswleiddio cartrefi,</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Inswleiddio cartrefi – sut mae CSDd yn perfformio o ran inswleiddio tai cymdeithasol sy'n eiddo i'r Cyngor</li> </ul> <p><b>Beth all CSDd ei wneud i annog a chefnogi nifer yr aelwydydd sy'n inswleiddio eu cartrefi yn y Sir.</b></p>	
<p><b>4. Cynllun Ffermio Cynaliadwy</b> (Huw Morgan a Howard Sutcliffe)</p> <p>Cefnogi'r sector amaethyddol yn Sir Ddinbych gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd arfaethedig yng Nghymru</p>	<p>(30 munud)</p> <p>15.20-15.50</p>
<p>Rhaglen gwaith i'r dyfodol ac Unrhyw Fater Arall</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 10 Gorffennaf 2024</li> <li>• Opsiynau mwy ecogyfeillgar ar gyfer rheoli chwyn (dewisiadau, peilot a gweithredu eang) - Gwasanaethau Stryd CSDd, Tai CSDd, Bioamrywiaeth CSDd</li> <li>• Lleihau'r defnydd o blastig untro mewn ysgolion - Newid Hinsawdd CSDd, Gwasanaethau Cefn Gwlad CSDd</li> </ul>	<p>(10 munud)</p> <p>15.50-16.00</p>

## Aelodaeth – Cynghorwyr:

Y Cyng. Arwel Roberts  
 Y Cyng. Barry Mellor (Cadeirydd)  
 Y Cyng. Bobby Feeley  
 Y Cyng. Delyth Jones  
 Y Cyng. James Elson  
 Y Cyng. Jon Harland  
 Y Cyng. Martyn Hogg  
 Y Cyng. Michelle Blakeley-Walker  
 Y Cyng. Paul Keddie  
 Y Cyng. Peter Scott

## Cofnodion Cyfarfod y Gweithgor Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Ecolegol

<b>Dyddiad</b>	28/02/2024
<b>Amser</b>	14:00 tan 16:00
<b>Lleoliad</b>	Microsoft Teams
<b>Yn bresennol</b>	Y Cyng. Barry Mellor (Cadeirydd) (BM), Y Cyng. Bobby Feeley (BF), Y Cyng. Jonathan B. Harland (JBH), Y Cyng. Martyn Hogg (MH), Y Cyng. Delyth A. Jones (DAJ), Y Cyng. Arwel Roberts (AR), Y Cyng. Michelle Walker (MW), Y Cyng. Peter Scott (PS), Y Cyng. James Elson (JE), Y Cyng. Paul Keddie (PK)
<b>Ymddiheuriadau</b>	Dim
<b>Hefyd yn bresennol</b>	Swyddogion Cefnogi: Gary Williams (GW), Helen Vaughan-Evans (HVE), Liz Wilcox-Jones (LWJ), Glyn Forsdick (GF), Joseph Muxlowe (JM), Howard Sutcliffe (HS), Huw Morgan (HM), Aileen Charteris (AC) (Cofnodwr)

### 1. Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau

Croesawodd BM, y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am eu hamser.

Ni nodwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. Cofnodion/ camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf a materion yn codi (Cadeirydd)

Archwiliwyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf (10/11/24) (Cynigydd: Y Cyng. Peter Scott, Eilydd: Y Cyng. James Elson) ac adolygwyd y tabl Camau Gweithredu. Roedd dau o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau ac roedd un wedi'i symud:

- Mae'r eitemau a awgrymir ar gyfer camau gweithredu'r strategaeth hinsawdd o'r cardiau sgorio hinsawdd wedi'u cwblhau.
- Cafodd y llythyr gan Lee Walters MSP ei ddsbarthu gyda chofnodion y cyfarfod blaenorol.
- Mae cam gweithredu i archwilio cyfleoedd fel 'Charge Gully' bellach wedi'i ychwanegu fel cam gweithredu isadeiledd cerbydau trydan at ddefnydd y cyhoedd o fewn y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol.

### 3. Diweddariad ar Adolygiad y Strategaeth (Liz Wilcox-Jones)

Adolygu ac adnewyddu'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2023/24

#### Adborth ar y Ddogfen Strategaeth

Dyma'r prif bwyntiau:

- Byddwn yn cadw uchelgais y strategaeth flaenorol, gan gydnabod y pwysau ar ddarparu gwasanaeth ar hyn o bryd
- Bydd y strategaeth newydd yn canolbwyntio fwy tuag allan, yn cynnwys,
  - Defnyddio ein dylanwad ar draws y sir i gefnogi addasu ac felly cynyddu gwydnwch.
  - Addysg a chefnogaeth i wella adferiad natur ar draws y sir.
- Mae atodiad technegol bellach wedi'i gynnwys.
- Mae'r gyllideb ar gyfer y rhaglen wedi'i ailasesu ar 48 miliwn (GBP) ond bydd llawer o'r gwaith yn dibynnu ar gyllid grant.
  - Mae gennym gyfradd llwyddiant o 36% mewn ceisiadau am gyllid grant ar hyn o bryd.
- Mae'r amserlenni cyfredol disgwylidig yn cynnwys:
  - Lansio ymgynghoriad cyhoeddus o'r strategaeth ddiwygiedig ym mis Mawrth/Ebrill 2024
  - Mynychu pwyllgorau gwneud penderfyniadau yn yr haf gyda'r bwriad o fabwysiadu'r strategaeth newydd erbyn mis Gorffennaf 2024

## Asesiad o'r Effaith ar Les

- Mae gan yr Asesiad o'r Effaith ar Les cyfredol sgôr o 27/30 gyda 5 cadarnhaol a 2 niwtral.
- Mae'r strategaeth wedi'i diweddarau wedi troi rhai o adrannau niwtral yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn gadarnhaol.

## ***Cam gweithredu – Derbyn yr HOLL adborth ar y ddogfen strategaeth wedi'i diweddarau a'r Asesiad o'r Effaith ar Les erbyn 15 Mawrth.***

Gofynnodd MH am ffordd o flaenoriaethu'r camau gweithredu o fewn y strategaeth fel bod y pwyslais ar y camau gweithredu hynny a fyddai'n cael yr effaith fwyaf. Dywedodd MH y dylid gwneud hyn yn seiliedig ar yr ymgynghoriad cyhoeddus. Cytunodd HVE bod hyn yn rhywbeth y gallwn edrych arno: Byddai blaenoriaethu hefyd yn dibynnu ar argaeledd a llwyddiant gyda chyfleoedd am gyllid grant. Atgoffodd GW y grŵp y byddai llawer o'r camau gweithredu yn arbed arian rŵan (llai o ddefnydd o ynni), ac yn y dyfodol.

Cytunodd y grŵp bod angen i'r ddogfen barhau i fod yn ddarllenadwy ac yn hygyrch i bawb. Dywedodd MH nad oedd y strategaeth flaenorol a oedd yn defnyddio "cardiau post o'r dyfodol" at ddant pawb ond roedd yn ffordd o ddangos ein gweledigaeth mewn ffordd syml. Gofynnodd DAJ bod cyfathrebiadau yn cael eu gwneud ar gyfer y strategaeth ac unrhyw flaenoriaethau. Bu i'r swyddogion sicrhau'r aelodau y byddai'r ymgynghoriad ar adolygu'r strategaeth ar agor yn fuan ac y byddai'n cael ei gyhoeddi. Anogodd HVE yr aelodau i wneud eu cynghorau cymuned, tref a dinas yn ymwybodol o'r ymgynghoriad, yn enwedig gan mai un o'r camau gweithredu newydd yw cefnogi'r grwpiau hyn i fod yn gadarnhaol o ran hinsawdd a chymryd camau i adfer natur.

Tynnodd JE sylw at yr ymgysylltiad cyhoeddus gwych sydd gennym gyda digwyddiadau amgylcheddol a'r cyfathrebu amdanynt, a'n bod yn iach iawn yn y maes hwn. Bu i BM, AR, a PK ddathlu gwaith y Blanhigfa Goed gan ddweud ei fod yn lle gwych i gynghorau cymuned, tref a dinas ymweld ag ef.

## 4. Ynni ac Inswleiddio'r Cartref (Joseph Muxlowe CSFf, Glyn Forsdick)

Rhoddodd GF gyflwyniad PowerPoint i'r grŵp.

Pwyntiau Allweddol

- Bwriad y tîm yw bodloni sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o C(75) erbyn 2030.
- Mae gennym rai eiddo sydd â sgôr o A a B, ond mae'r rhain yn adeiladau mwy newydd sydd wedi'u hadeiladu gydag effeithlonrwydd ynni mewn golwg.
- Mae gan lawer o'n heiddo sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o C (69-80) neu D (55-68). Mae gwella'r eiddo hyn yn anodd oherwydd eu hoedran a'r math o adeiladu.
- Mae eiddo gyda sgorau Tystysgrif Perfformiad Ynni isel iawn yn tueddu i fod â waliau solet ac yn defnyddio dulliau ynni a gynhyrchir oddi ar y grid.
- Mae ôl-osod 189 o eiddo wedi arwain at eu gwella i gael sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o A, B neu C uchel.

Bu i'r Cynghorwyr longyfarch GF a'r tîm tai am gynnwys llawer o brentisiaid mewn gwaith ôl-osod diweddar. Mae hyn yn wych ar gyfer yr economi werdd ac yn annog sgiliau ymysg pobl ifanc leol.

Trafododd y grŵp sut allwn ni annog perchnogion tai preifat i gymryd camau gweithredu ôl-osod tebyg. Gofynnodd MH a oes modd rhannu ein dysgu, yn enwedig lle mae ein stoc tai yn debyg i gartref dan berchnogaeth breifat a lle na all y perchnogion tai dderbyn cymorth yn seiliedig ar brawf modd. Gofynnodd DAJ sut allwn ni sicrhau fod cartrefi newydd yn gosod ffynonellau ynni gwyrdd/amgen pan fyddant yn cael eu hadeiladu a bod adeiladau newydd yn gwbl gydnaws â'r ffynonellau hynny.

Eglurodd HVE nad yw'r allyriadau o ddefnydd ynni tenantiaid yn cyfrannu at ein ffigurau allyriadau carbon.



Gofynnodd AR am ddarn o dir wrth ymyl Aldi yn Rhuddlan sydd wedi'i feddiannu gan breswlydd preifat. Bydd GR yn ymateb i'r cwestiwn hwn y tu allan i'r cyfarfod.

Gofynnodd AR hefyd am ymddangosiad allanol byngalos yn yr un ardal. Dywedodd GR nad oedd y byngalos wedi bod ar amserlen paentio flaenorol ac nad oeddent ar unrhyw gynlluniau sydd i ddod i gael eu paentio.

Gofynnodd BF sut allwn ni wella ardaloedd garejys ac a yw'n dal yn werth cadw garejys neu a fyddai'n well adeiladu tai yn y gofodau hyn. Bydd GF yn ymateb y tu allan i'r cyfarfod.

Rhoddodd JM fanylion o'u rôl yng Nghyngor Sir y Fflint a'u gweinyddiaeth o'r cynllun EC04 ar ein rhan:

Mae JM yn gweithio i'r Tîm Ynni Domestig yng Nghyngor Sir y Fflint

<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Energy-Saving/Help-with-energy-saving.aspx>

Mae tîm JM yn gweinyddu'r cynllun EC04 ar ein rhan

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/budd-daliadau-grantiau-a-chyngor-arian/addasu-neu-wella-eiddo/cymhwysedd-hyblyg-datganiad-o-fwriad.aspx>

Pwyntiau allweddol

- Mae cartrefi sy'n gymwys o dan y cynllun EC04,
  - Wedi'u lleoli mewn ardal o amddifadedd lluosog
  - Yn derbyn gostyngiad yn Nhreth y Cyngor (heb gynnwys gostyngiad person sengl)
  - Lle mae aelod o'r aelwyd yn ddi-amddiffyn i'r oerni fel y nodir yng Nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)
  - Aelwyd sy'n derbyn prydau ysgol am ddim oherwydd incwm isel
- Mae'r tîm wedi cefnogi 510 o aelwydydd. Mae cymhwysedd wedi'i rannu bron yn 50/50 rhwng aelwydydd incwm isel ac aelwydydd gydag angen iechyd.

- Bydd y cynllun yn cefnogi deiliaid tai i ôl-osod a gallai gynnwys inswleiddio, paneli solar a phympiau gwres.
- Bydd y rhan fwyaf o gartrefi yn gwella o 2 fand Tystysgrif Perfformiad Ynni, gyda'r nod o symud i sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o C neu uwch ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.
- Mae amddiffyniad ar waith er mwyn sicrhau bod y contractwyr sy'n cael eu defnyddio fel rhan o'r cynllun yn cael eu gwirio'n drylwyr. Bydd unrhyw gontractwr sy'n cael ei ddal yn galw'n ddigroeso i annog preswlydd i gymryd rhan yn y cynllun yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr contractwyr.
- Bydd unrhyw un nad ydynt yn gallu cael mynediad at y cynllun yn cael eu cyfeirio at Nyth <https://www.llyw.cymru/cael-cymorth-gydag-ffeithlonrwydd-ynni-yn-eich-cartref-gan-nyth>

Gofynnodd AR am fwy o wybodaeth ar ffurf taflenni neu ddigwyddiadau cyhoeddus.

Dywedodd JM bod hyn yn cael ei drafod a'i gynllunio ar hyn o bryd.

Soniodd BF ei bod wedi cael profiad da gyda galwr digroeso ac mae gwaith wedi'i wneud ar ei chartref yn dilyn hyn.

Dywedodd MH fod angen cymorth gydag effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yn gyffredinol ac i bobl nad ydynt yn gymwys ar gyfer y cynllun EC04. Eglurodd JM bod preswylwyr yn Sir Ddinbych yn gallu cael cyngor gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, tra bod y Tîm Ynni Domestig yn darparu'r cyngor hwn yn Sir y Fflint. Os oedd gan CSDd ddiddordeb mewn cael gwasanaeth tebyg yn Sir Ddinbych, roedd croeso iddynt weithio gyda JM.

***Cam gweithredu – AC i rannu cyfeiriad e-bost y tîm ynni domestig gyda'r aelodau.***

Diolchodd BM i Glyn a Joseph am eu hamser.

### **5. Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) (Huw Morgan a Howard Sutcliffe)**

Cyflwynodd HM y cyflwyniad amgaeedig i'r grŵp.

Pwyntiau Allweddol:

- Cymhwysedd i'r cynllun (Llywodraeth Cymru: Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cadw Ffermwyr i Ffermio: Sesiwn briffio ar yr ymgynghoriad)
  - Meddiannu a rheoli'r tir yn gyfan gwbl am 10 mis o'r flwyddyn
  - Bodloni'r camau gweithredu cyffredinol ar gyfer y fferm
  - Darparu 10% o orchudd coed a 10% o gynefin (gwrychoedd, pyllau a sgriffiadau ac ati)
- Er bod y cynllun yn cael ei gyhoeddi fel un sydd wedi cael ei dderbyn yn wael, mae yna rai ffermwyr sy'n hapus â'r cynllun ac sydd eisoes yn rheoli eu tir mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r cynllun.
- Mae'r ymgynghoriad ar gyfer y cynllun yn cau ddydd Iau 7 Mawrth a gall CSDd ystyried ymateb ar ran ein ffermwyr tenant.

Dyweddodd BF bod angen i ni wrando ar ffermwyr gan eu bod yn gofalu am ein tir yn y sir ac mae llawer ohonynt yn credu na fyddai'r cynllun yn gweithio. Dywedodd HM fod Prif Weinidog Cymru wedi cytuno i wneud dadansoddiad economaidd wedi'i ddiweddarau o'r cynllun ac mai'r peth gorau i'w wneud byddai gwneud yn siŵr bod nifer dda yn cofrestru ar gyfer y cynllun.

Gofynnodd JBH am yr effaith ariannol lle mae ffermwr yn symud o Gynllun y Taliad Sylfaenol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Eglurodd HM mai hwn yw'r rhan o'r cynllun sy'n achosi'r mwyaf o bryder, ac mae'n bosibl y gall taliadau leihau yn y sefyllfa hon. Bydd ffermwr sy'n ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2028 yn cael cynnydd yn ei daliadau i gyd-fynd â thaliadau blaenorol Cynllun y Taliad Sylfaenol, felly mae hynny'n ysgogiad i ymuno.

Roedd MH yn teimlo'n rhwystredig bod materion ariannol a gwleidyddol yn peryglu'r hyn a oedd yn gynllun da yn nhermau adfer natur. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu gorchudd coed a chynefin wedi'i fapio ar draws Cymru, ond mae gan y rhan fwyaf o'n ffermydd o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol 10% o orchudd coed a 10% o gynefin gyda ffermydd yn ardaloedd eraill o Gyngor Sir Ddinbych ychydig yn is. Mae llawer o ffermwyr yn gwneud gwaith gwych i gynyddu bioamrywiaeth ac amsugno carbon ar eu tir. Dywedodd PS bod gan y rhan fwyaf o ffermydd yn Sir Ddinbych eisoes 8/9% o orchudd coed. Dywedodd HM bod hyn yn wir ar y cyfan.

Dyweddodd JM bod plannu coed ar dir fferm yn gallu dibrisio'r tir i ffermwyr. Dywedodd AR fod colli 10% o'ch tir yn gallu bod cyfwerth â cholli eich pensiwn. Siaradodd HM am ein dylanwad ar ffermwyr tenant, fel landlordiaid nid ydym yn gallu dweud beth ddylent ei wneud gyda'u ffermydd, yn enwedig gan nad yw cytundebau tenantiaeth yn cyfeirio at yr argyfwng hinsawdd a natur. Cyfeiriodd LWJ at y broses Adolygu Ystâd Amaethyddol, a fydd yn edrych ar gynnwys tenantiaethau ar ffermydd sy'n eiddo i CSDd.

***Cam gweithredu – LWJ i gysylltu â GW a HVE i ystyried ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynllun ar ran ein ffermwyr tenant.***

## **6. Rhaglen Waith ac Unrhyw Fater Arall**

Cyfarfod nesaf 10 Gorffennaf 2024.

- Lleihau plastigau untro mewn ysgolion (Arlwyo ysgol DCC)
- Opsiynau mwy ecogyfeillgar ar gyfer rheoli chwyn (Tîm Stryd DCC, Tai DCC, Bioamrywiaeth DCC)